Datganiad i'r Wasg 29.3.22

Sinfonia Cymru a ffidil Russell Crowe yn archwilio ein hangen i ymgysylltu â natur a'r awyr agored!'

Mae **Sinfonia Cymru** yn gyffrous i ddechrau rhaglen fyw 2022 ar **Ddydd Sul y 3ydd o Ebrill** gyda '**Songs for the Earth'**, y cyntaf o dri gig '*Curate'* gan **Sinfonia Cymru,** yng **Nghanolfan Chapter**, **Caerdydd.**

*"Fel popeth rydym yn ei wneud yn **Sinfonia Cymru**, mae gigs **Curate** yn rhoi ein chwaraewyr wrth galon ein gwaith, er mwyn rhoi cyfle iddynt ddatblygu sgiliau hollbwysig ar ddechrau eu gyrfa broffesiynnol. Nhw sy'n curadu ein gigs Curate, nhw sy'n dewis y thema, y cysyniad a'r gerddoriaeth, sy'n gwneud pob gig yn hollol unigryw. Rydym yn eu cefnogi ar bob cam o'r daith i sicrhau eu datblygiad fel cerddorion, ac i sicrhau profiad gwych i'n cynulleidfaoedd"*
Peter Bellingham, Prif Weithredwr, Sinfonia Cymru

Bridget O' Donnell chwaraewr ffidil o Awstralia sydd wedi curadu **Songs for the Earth.** Bellach yn byw yn Llundain, dyma ei blwyddyn gyntaf gyda **Sinfonia Cymru**. Dechreuodd chwarae'r ffidil pan roedd hi'n 5 oed ac yn 15 oed aeth ymlaen i astudio mewn ysgol uwchradd oedd yn arbenigo mewn cerddoriaeth, cyn mynd i weithio gyda **Cherddorfa Symffoni Sydney** ac ymlaen i astudio ei MA yn yr **Academi Gerdd Frenhinol** yn Llundain. Mae'r ffidil y bydd hi'n chwarae yng Nghaerdydd yn un fyd enwog!

"Cafodd y ffidil arbennig hon ei chwarae gan yr actor ***Russell Crowe*** *yn ei ffilm enwog '**Master and Commander'** sy'n andros o cwl! Helpodd Russell fi i gael y ffidil arbennig hon ac roedd yn awyddus i sicrhau bod hi'n cael ei defnyddio. Dwi'n edrych ymlaen i'w chwarae hi yng Nghaerdydd!"*

Tu hwnt i'r ffidil enwog, beth gall y gynulleidfa ei ddisgwyl yn Chapter? Cafodd **Songs for the Earth** ei ysbrydoli gan ddiddordeb Bridget ym myd natur a'r awyr agored, ein angen ni fel pobl i ymgysylltu â'r tirlun, planhigion a bywyd gwyllt, trwy ein gwaith, ein ysfa i gerdded, garddio a mwy.

*"Dwi wastad wedi ymddiddori yn ein perthynas gyda natur a'r awyr agored, a sut mae hyn yn amrywio yn ddibynnol ar ble rydyn ni'n byw. Dwi wedi curadu rhaglen sy'n cynnig rhywbeth i bawb. Mae'n gymysgedd o'r gwerin a'r clasurol, gyda cherddoriaeth o'r traddodiadau Celtaidd gan gynnwys Cymru wrth gwrs, yn ogsytal â cherddoriaeth o ddiwylliannau rhyngwladol o Dde America i Ddwyrain Ewrop. Dwi'n gyffrous i berfformio hwn yng Nghymru, gwlad sy'n gyfoeth o dirluniau a natur. Mae **Sinfonia Cymru** yn gret, dwi'n caru sut mae nhw'n gadael inni archwilio syniadau newydd a chysyniadau creadigol fel hyn."*

Bydd pump cerddor llinynnol a hefyd ei chariad, **Misha Mullov – Abbado,** y gwestai bas jazz yn ymuno â Bridget yn y gig. Mae Misha'n gerddor llwyuddiannus tu hwnt. Mae'n un o artistiaid y **BBC Radio 3 New Generation** ers 2017 ac wedi derbyn sawl comisiwn gan gynnwys gwaith ar gyfer **Cerddorfa Gyngerdd y BBC**. Mae'n caru Cymru ac yn methu aros i berfformio gyda **Sinfonia Cymru** am y tro cyntaf;

“Dwi’n caru’r bryniau a’r mynyddoedd sy’n addas iawn ar gyfer y gig yma! Fy hoff le yn y byd i fynd ar wyliau yw Eryri, mae’r lle’n gyfoeth o lefydd i fynydda a dringo. Mae ein cysylltiad gyda natur wedi ysbrydoli’r ddau ohonom a thrwy’r gig yma byddwn ni’n archwilio sut mae pobl yn ymgysylltu â natur mewn ffyrdd gwahanol o amgylch y byd. Mae na gerddoriaeth fachog a nifer o gyfleoedd i ni fyr fyfyrio a bod yn rhydd, gydag elfennau o jazz yn yr harmoni a'r rhythm. Mae’n mynd i fod yn gymaint o hwyl!”

Os ydech chi awydd pnawn Sul diog o gerddoriaeth fyw yn Chapter, gyda phlanhigion a cherddoriaeth jazz, gwerin a chlasurol, archebwch eich tocynnau nawr. Un cyfle sydd i fwynhau’r gig yma sef **Dydd Sul yma y 3ydd o Ebrill am 4yh**. Addas i bob oedran. Tocynnau yn £3 - £14 ac ar gael o www.chapter.org. Bydd cyfle i’r gynulleidfa fwynhau taith gerdded o amgylch gardd Chapter am 3 o’r gloch, cyn y perfformiad byw.

Am wybodaeth bellach neu i drefnu cyfweliadau ebostiwch Heulwen Davies, Ymgynghorydd Marchnata Sinfonia Cymru ar heulwen@llaiscymru.wales / 07817591930.

DIWEDD

Manylion pellach am Sinfonia Cymru ar www.sinfonia.cymru